TECIS503304

# Dadansoddi a dehongli canlyniadau gweithgareddau profi meddalwedd

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn ymwneud â dadansoddi a dehongli canlyniadau profion yn erbyn gofynion swyddogaethol a busnes. Mae'n cynnwys nodi diffygion a gwneud argymhellion ar gyfer gwella. Mae hefyd yn cynnwys adrodd ar ganlyniadau profion i randdeiliaid.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. Cynnal cofnodion cywir o brofion ac adroddiadau systemau
2. Asesu canlyniadau profion yn erbyn meini prawf derbyn swyddogaethol a busnes a nodwyd
3. Dadansoddi canlyniadau profion i nodi a nodweddu diffygion
4. Defnyddio dadansoddiad o ganlyniadau profion i flaenoriaethu ymchwiliad a datrys problemau
5. Cynnal dadansoddiad i nodi cydrannau neu ymarferoldeb meddalwedd sy'n profi nifer uwch o fethiannau prawf neu adroddiadau am broblemau
6. Rhoi gwybodaeth am y gweithdrefnau profi sydd eu hangen er mwyn i'r tîm profi meddalwedd ymchwilio i fethiannau prawf a'u datrys
7. Coladu a dogfennu meini prawf derbyn mewn profion a'r canlyniadau a ddisgwylir mewn profion
8. Defnyddio dadansoddiad o ganlyniadau profion i gadarnhau a yw'r gweithdrefnau profi a weithredwyd yn rhoi cwmpas derbyniol i'r prawf o ran nodi gwallau yn ddigonol
9. Cyfleu canlyniadau profion meddalwedd i ddefnyddwyr, noddwyr a datblygwyr i gynorthwyo'r broses o ddatblygu meddalwedd

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. Cysyniadau a dulliau profi a sicrwydd; gan gynnwys integreiddio, system, straen, derbyn gan ddefnyddwyr, a phrofion atchweliad
2. Sut i ddadansoddi manylebau a diffiniad o strategaeth brofi, cynlluniau profi ac achosion profi
3. Ystod o ieithoedd rhaglennu ac amgylcheddau datblygu
4. Beth yw ystyr profi a'r camau a'r bobl sy'n gysylltiedig
5. Y methodolegau a'r dulliau profi meddalwedd a nodir mewn safonau sefydliadol
6. Y gweithdrefnau, yr offer a'r technegau profi meddalwedd a nodir mewn safonau sefydliadol
7. Pwysigrwydd dadansoddi canlyniadau profion a chymryd unrhyw gamau angenrheidiol
8. Pwysigrwydd cynnal a chadw dogfennaeth sy'n ymwneud â phrofi meddalwedd
9. Priodoldeb gwahanol fathau o brofion ar gyfer gwahanol gydrannau mewn datrysiad meddalwedd
10. Rôl profi fel rhan annatod o gylch bywyd datblygu meddalwedd
11. Rôl profion derbyn gan fusnes a'r angen i gytuno ar feini prawf gyda defnyddwyr busnes, noddwyr a rhanddeiliaid
12. Goblygiadau posibl profion anghywir, anghyflawn, annigonol a/neu amhriodol
13. Pwysigrwydd gwirio cywirdeb, cyfoesedd, cyflawnder a pherthnasedd data a gwybodaeth a ddefnyddir yn ystod gweithgareddau profi

TECIS503304

Dadansoddi a dehongli canlyniadau gweithgareddau profi meddalwedd

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Tech Partnership |
| **Fersiwn rhif** | 1 |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 31 Maw 2018 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 01 Tach 2020 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | The Tech Partnership |
| **RCU gwreiddiol** | TECIS503304 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Swyddog Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu, Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu, Gweithwyr Proffesiynol Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu |
| **Cyfres/Set** | TG a Thelathrebu |
| **Geiriau Allweddol** | Profi Meddalwedd |